Beth yw'r rhestr aros ar gyfer trawsblannu organau?

Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn derbyn trawsblaniad organau i achub eu bywydau. Mae miloedd yn fwy yn derbyn trawsblaniadau meinwe sy'n newid eu bywydau, fel cornbilennau, i'w helpu i weld unwaith eto, neu drawsblaniad esgyrn er mwyn helpu i adfer symudedd.

Fyddai hyn ddim yn digwydd heblaw bod pobl yn barod i helpu eraill drwy roi eu horganau neu feinweoedd pan fyddan nhw'n marw.

Gall nifer o gyflyrau ac afiechydon arwain at organ yn methu. Os ydych yn dioddef o un o'r rhain, efallai y bydd angen i chi gael organ arall yn lle'r un sy'n methu.

Os felly, byddwch yn cael eich asesu i weld os mai trawsblaniad organau yw'r driniaeth orau i chi. Os byddwch yn bodloni'r meini prawf, cewch eich ychwanegu at Restr Aros Trawsblaniad y DU.

Mae'r rhestr hon yn cynnwys manylion pawb yn y DU sydd wedi'u hasesu ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer trawsblaniad. Mae'r system genedlaethol hon yn caniatáu i organau sy'n cael eu rhoi gael eu paru gyda'r person gorau posibl.

Gall gymryd amser hir i organ addas fod ar gael. Wrth aros am yr alwad ffôn fydd yn newid bywydau, gall cleifion fod yn rhy sâl i gael trawsblaniad, neu'n waeth – gallant farw heb gael yr organ sydd ei hangen.

6,400

Rhoi rhodd bywyd

Ar hyn o bryd, mae tua 6,400 o bobl sy'n ddifrifol wael yn aros am drawsblaniad i achub eu bywydau.



Cofrestrwch nawr a dywedwch wrth eich teulu eich bod am roi rhodd bywyd